Estyn | Dros ddysgwyr, dros Gymru
For learners, for Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gymraeg Brynsierfel

Dwyfor
Llwynhendy
Llanelli
Sir Gaerfyrddin
SA14 9HD

Dyddiad yr arolygiad:  Ionawr 2026

gan

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg

a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn ag Ysgol Gymraeg Brynsierfel

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Gymraeg Brynsierfel |
| Awdurdod lleol | Cyngor Sir Gâr |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Categori ysgol yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg | 3 |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | * |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 212 |
| Disgyblion o oedran ysgol statudol | 168 |
| Nifer yn y dosbarthiadau meithrin | 44 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector Cynradd yw 21.7%) | 23.10% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector Cynradd yw 9.2%) | 2% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 19.4% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 0.0% |
| Partner arweiniol ar gyfer Addysg gychwynnol athrawon | Nac ydy |

| | |
|---|---|
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 01/09/2025<br>(Pennaeth dros dro ers Chwefror 2023) |
| Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw'n berthnasol) | 21/05/2018 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 19/01/2026 |

Daw'r data hwn o ddata diweddaraf y Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgyblion. Efallai byddant ychydig yn wahanol i'r hyn a arsylwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol: [Fy Ysgol Leol (gov.wales)]

a. Mae'r term 'anghenion dysgu ychwanegol' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr AAA/ADY yr ysgol

## Crynodeb

Mae Ysgol Gymraeg Brynsierfel yn gymuned ddysgu ofalgar, hapus a chynhwysol. Mae staff yn adnabod anghenion ei disgyblion yn dda ac yn meithrin eu lles a'u dysgu'n llwyddiannus. Un o gryfderau'r ysgol yw'r cydweithio agos ag asiantaethau allanol i gefnogi disgyblion unigol gan addasu'r cwricwlwm i fodloni eu hanghenion. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn hapus i fynychu'r ysgol ac yn teimlo'n ddiogel yno. Mae ganddynt agweddau cadarnhaol at eu dysgu ac mae eu hymddygiad yn gyson dda. Mae pwyllgorau cynrychiolaeth amrywiol yr ysgol yn cynnig cyfleoedd cyson i ddisgyblion gymryd cyfrifoldebau a datblygu eu medrau arwain yn effeithiol.

Mae gweledigaeth gadarn yr arweinwyr a staff i feithrin dysgwyr annibynnol, hyderus a mentrus o fewn amgylchedd ddysgu gartrefol, yn cael ei rhannu'n effeithiol gyda'r disgyblion a chymuned ehangach yr ysgol. Mae arweinwyr yn arddel prosesau hunanwerthuso cadarn, sy'n galluogi gwelliannau yn y ddarpariaeth er lles a chynnydd disgyblion. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cadarn yn eu medrau dros amser. Er hyn, nid yw athrawon yn darparu cyfleoedd digon bwriadus a rheolaidd i ddisgyblion gymhwyso eu medrau rhifedd yn adeiladol ar draws y meysydd dysgu.

Mae staff yn darparu amgylchedd ddysgu yn bwrpasol i ysgogi disgyblion, gan gynnig cefnogaeth werthfawr iddynt. Ar draws yr ysgol, mae athrawon yn cynllunio cyfleoedd rheolaidd a buddiol i ddisgyblion weithio'n annibynnol ar eu tasgau. Maent yn cynnig adborth llafar amserol a chymorth defnyddiol i'r disgyblion wrth ymateb i'w gwaith. Er hyn, nid oes digon o gyfleoedd cyson i ddisgyblion wneud dewisiadau annibynnol am y ffordd maent am gyflawni a chyflwyno eu dysgu.

Mae gan y pennaeth a'r staff berthynas gadarnhaol a threfniadau cyfathrebu effeithiol â rhieni. O ganlyniad, mae rhieni'n hyderus i godi unrhyw fater all effeithio ar les a dysgu eu plant.

## Argymhellion

Rydym wedi gwneud dau argymhelliad i helpu'r ysgol barhau i wella

A1 Ymestyn cyfleoedd bwriadus i ddisgyblion wneud penderfyniadau am eu dysgu yn gynyddol annibynnol

A2 Ehangu’r cyfleoedd i ddisgyblion gymhwyso eu medrau rhifedd yn eu gwaith ar draws y cwricwlwm

## Beth sy’n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i’r afael â’r argymhellion o’r arolygiad.

## Prif werthusiad

Mae'r ysgol yn gymuned ddysgu hapus a chynhwysol lle mae disgyblion a staff yn trin ei gilydd â pharch a charedigrwydd. Mae arweinyddiaeth angerddol a gofalgar y pennaeth a'r pennaeth cynorthwyol yn gosod cyfeiriad strategol clir i'r ysgol. Maent yn canolbwyntio'n dda ar wella dysgu a gosod lles disgyblion yn ganolog. Mae ganddynt weledigaeth gadarn o feithrin dysgwyr annibynnol, hyderus a mentrus o fewn amgylchedd ddysgu gartrefol. Maent yn cael eu cefnogi'n frwd gan staff hynod ymroddgar sy'n rhannu'r weledigaeth hon yn llwyddiannus gyda disgyblion a chymuned ehangach yr ysgol.

Mae adnabyddiaeth gadarn gan arweinwyr a staff o anghenion disgyblion ac yn arbennig eu hanghenion emosiynol a chymdeithasol. Mae ystod gyfoethog o ymyraethau addas yn cael eu gweithredu o fewn y ddarpariaeth ddosbarth i ddiwallu eu hanghenion yn llwyddiannus. Mae hyn yn cefnogi'r rhan fwyaf o ddisgyblion i fod yn barod i ymroi i'w gwaith a mwynhau eu dysgu.

Mae'r ysgol yn darparu cymorth addas ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY). Mae eu hanghenion yn cael eu hadnabod yn gynnar a chefnogaeth fwriadus yn cael ei darparu i hyrwyddo cynnydd mewn medrau llythrennedd a rhifedd a chefnogi lles.

### Ciplun: Addasu'r ddarpariaeth i fodloni anghenion disgyblion unigol

Un o nodweddion cryfaf yr ysgol yw'r cydweithio agos ag ystod helaeth o asiantaethau i gefnogi disgyblion penodol, gan gynnwys y sawl o aelwydydd incwm isel, a'u teuluoedd. Mae hyn yn cynnwys cyswllt rheolaidd â'r rhieni i feithrin perthynas o ymddiriedaeth ac i adnabod yn gywir eu heriau cymdeithasol. Mae'r ysgol yn defnyddio'r wybodaeth yn fedrus i addasu'r ddarpariaeth gan sicrhau bod anghenion y disgyblion yn cael eu diwallu'n llawn. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol iawn ar hunanwerth a hyder y disgyblion, eu hymdeimlad o berthyn a'u parodrwydd i ddod i'r ysgol.

Mae arweinwyr wedi sefydlu gweithdrefnau hunanwerthuso addas ar gyfer monitro a chynllunio gwella'r ddarpariaeth a chyflawniad disgyblion. Maent wedi'u seilio ar ystod o ffynonellau uniongyrchol ac mae arweinwyr yn defnyddio'r wybodaeth yn briodol i nodi'r meysydd i'w gwella. O ganlyniad, mae blaenoriaethau gwella'r ysgol yn canolbwyntio'n gadarn ar wella'r ddarpariaeth, datblygu medrau disgyblion a chyflawni blaenoriaethau gwella cenedlaethol. Mae arweinwyr yn monitro'n fanwl effaith y gweithredoedd ar gynnydd dysgu a'r addysgu.

Mae'r llywodraethwyr yn gefnogol iawn i waith yr ysgol ac yn adnabod y gymuned mae'n ei gwasanaethu yn dda. Maent yn datblygu eu dealltwriaeth o weithgareddau gwella'r ysgol, er enghraifft drwy ystyried canfyddiadau ymweliadau â'r dosbarthiadau a thrafod cynnydd

mewn medrau mathemateg ar draws yr ysgol. O ganlyniad, mae eu hadnabyddiaeth o gryfderau'r ysgol a'r meysydd i'w datblygu yn drylwyr.

Mae'r pennaeth yn gosod a chyfleu disgwyliadau uchel ar gyfer staff, disgyblion a'i hun. Mae wedi creu diwylliant cadarnhaol i ddarparu cyfleoedd dysgu proffesiynol cyson i'r holl staff. Cânt eu hannog i ddatblygu'n broffesiynol yn barhaus. Er enghraifft, mae pob aelod o staff wedi mynychu hyfforddiant ar ddefnydd o strategaethau addas i gefnogi lles disgyblion. Mae hyn wedi arwain at gysondeb yn nulliau'r ysgol wrth ymateb i anghenion disgyblion sy'n wynebu anawsterau emosiynol a chymdeithasol.

Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn datblygu medrau disgyblion yn systematig ac yn raddol yn ystod gweithgareddau dysgu a thros gyfnod. Mae hyn yn sicrhau bod y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth ac yn gwneud cynnydd cadarn yn eu medrau llythrennedd a digidol ynghyd ag ystod eraill o fedrau mewn amrywiol feysydd dysgu. Mae hyn yn cynnwys disgyblion o aelwydydd incwm isel a'r disgyblion sydd ag ADY. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cadarn yn eu medrau mathemateg. Er hyn, prin yw'r cyfleoedd i ddisgyblion gymhwyso eu medrau rhifedd yn eu gwaith ar draws y cwricwlwm.

Mae athrawon yn cyflwyno cwricwlwm cynhwysfawr sy'n sbarduno disgyblion i fwynhau eu dysgu. Mae disgyblion yn datblygu a chymhwyso'u dealltwriaeth o ymwybyddiaeth ysbrydol, foesol a diwylliannol yn rheolaidd trwy ystod o destunau difyr. Cyfoethogir y profiadau dysgu ymhellach wrth wahodd ymwelwyr i'r ysgol a threfnu ymweliadau addysgol sy'n galluogi pob disgybl i ddatblygu dealltwriaeth o'u hardal leol, Cymru a'r byd ehangach.

Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn defnyddio amrywiaeth o ddulliau addysgu yn effeithiol i gefnogi'r dysgu a sicrhau bod y gweithgareddau'n symud ar rediad addas. Maent yn holi a darparu adborth amserol sy'n cefnogi cynnydd y rhan fwyaf o ddisgyblion yn eu medrau yn fuddiol. Mae'r rhan fwyaf o athrawon a chynorthwywyr yn modelu'r Gymraeg yn effeithiol ac yn manteisio ar bob cyfle i gyfoethogi iaith y disgyblion sy'n cyfrannu'n fuddiol at ddatblygiad eu medrau llafar. O ganlyniad, maent yn datblygu'n ddysgwyr dwyieithog cymwys.

Ar draws yr ysgol, mae staff yn cydweithio'n effeithiol i ddatblygu amgylchedd ddysgu dawel a chroesawgar. Mae hyn yn cyfrannu'n llwyddiannus at yr ymdeimlad o gynhwysiad sy'n rhan annatod o wead y ddarpariaeth. Mae ymddygiad y rhan fwyaf o ddisgyblion yn gyson dda ac mae ganddynt agweddau cadarnhaol at eu dysgu. Mae llawer yn trafod eu gwaith yn hyderus, ac mae'r berthynas waith hynod gynhaliol rhwng y staff a'r disgyblion yn gryfder. Maent yn gwrando'n ofalus ar athrawon, yn dangos balchder yn eu gwaith ac yn ymateb yn gadarnhaol ac yn bwrpasol i adborth. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymroi i waith yn syth ac yn dyfalbarhau'n ddiwyd ar dasgau. Er hyn, prin yw'r cyfleoedd i

ddisgyblion wneud dewisiadau annibynnol am y ffordd maent am gyflawni a chyflwyno eu dysgu.

Mae athrawon yn sicrhau bod disgyblion yn barod am y camau nesaf yn eu dysgu drwy weithgareddau pontio cadarn. Mae hyn yn golygu bod disgyblion yn barod ac yn hyderus wrth wneud y cam nesaf yn eu haddysg.

Mae disgyblion yn ymgymryd â chyfrifoldebau ar nifer o bwyllgorau ysgol yn gydwybodol. Maent yn gwerthfawrogi'r cyfleoedd maent yn eu cael i ddylanwadu'n gadarnhaol ar fywyd a gwaith yr ysgol a datblygu eu medrau arwain. Er enghraifft, maent yn annog eu cyd-ddisgyblion i gyfathrebu'n gymdeithasol a'u ffrindiau yn Gymraeg.

Mae'r berthynas gynhyrchiol sy'n bodoli rhwng yr ysgol a'r rhieni yn gryfder. Mae'r pennaeth yn cyfathrebu'n effeithiol â rheini ac yn rhannu gwybodaeth berthnasol am newyddion a digwyddiadau'r ysgol yn amserol. Mae llawer o'r rhieni'n teimlo'n hyderus yn troi at yr ysgol i rannu unrhyw bryderon. Mae'r perthnasoedd cefnogol hyn yn galluogi rhieni i chwarae rôl weithredol yn nysgu eu plentyn.

## Gwybodaeth ychwanegol

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn peri pryder.

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer rheoli'r safle yn rhoi unrhyw achos i bryderu.

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Mae arweinwyr a llywodraethwyr yn rheoli cyllid yr ysgol yn briodol, gan gynnwys defnyddio'r grant datblygu disgyblion.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni/gofalwyr a'r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol / aelodau'r pwyllgor rheoli trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni/gofalwyr i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Atodiad 1: Niferoedd – symiau a chyfrannau

Mae'r adroddiad yn cyfeirio at wahanol symiau a chyfrannau, e.e. *'y rhan fwyaf o ddisgyblion…'* neu *'ychydig iawn o ddisgyblion…'*. Rydym yn defnyddio'r termau hyn i ddisgrifio symiau a chyfrannau fel yr amlinellir yn y tabl isod:

| | |
|---|---|
| bron pob un = | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf = | 90% neu fwy |
| llawer = | 70% neu fwy |
| mwyafrif = | dros 60% |
| hanner = | 50% |
| tua hanner = | yn agos at 50% |
| lleiafrif = | islaw 40% |
| ychydig = | islaw 20% |
| ychydig iawn = | llai na 10% |

# Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW  neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2026: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl: (a)  mewn unrhyw fformat neu gyfrwng; a (b) gellir ei gyfieithu gan neu ar ran darparwr addysg a/neu hyfforddiant y mae'r adroddiad hwn yn ymwneud ag ef i unrhyw iaith, ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio ac/neu ei gyfieithu'n gywir ym mhob achos ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Ym mhob achos, rhaid cydnabod y deunydd (gan gynnwys unrhyw gyfieithiad) fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi:  23/03/2026